

Dyddiad cyhoeddi: 31 Ionawr 2022

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Diolch i chi am gysylltu â Trafnidiaeth Cymru (TrC). Tynnodd ein cydweithwyr Cysylltiadau Cwsmeriaid sylw'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol at eich cais am wybodaeth, ac ymdriniwyd â'r cais hwn o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000). Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf a'n Polisi Rheoli Data a Gwybodaeth.

Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:

“Yn ôl eitemau rwyf wedi’u darllen a’u gwyllo ar y BBC, fe ddwedoch chi fod “glanhau trenau’n rheolaidd yn un o’r mesurau a oedd yn golygu nad oedd y coronafeirws wedi cael ei ganfod ar unrhyw un o’i wasanaethau.” Fe ddwedoch chi hefyd, “Rwy’n gwerthfawrogi nad yw’n teimlo’n iawn i fod ar drên prysur yng nghanol Covid, ond nid yw’r holl brofion rydyn ni wedi’u gwneud ac mae ein cydweithwyr yng ngweddill y DU wedi eu gwneud am Covid ar drenau wedi dod o hyd i unrhyw achos o Covid ar wasanaethau trên,” ac “felly rydyn ni’n credu, gyda’r holl fesurau lliniaru rydyn ni’n eu rhoi ar waith, bod trenau’n lle diogel i fod yn y bôn, o gymharu â lleoedd eraill mae pobl yn mynd. Ond rydyn ni’n dymuno gwneud yn well.”

Byddwn yn ddiolchgar iawn pe baech yn anfon rhagor o fanylion ataf ynghylch: pa fath o brofion a gynhaliwyd; y rhesymeg benodol dros y math hwn o brofion a pha mor aml y cynhaliwyd y profion?

Nid wyf yn arbenigwr yn y maes hwn, dim ond aelod o’r cyhoedd sy’n teithio nad yw’n teithio mwyach. Mae gwir angen yr hyder arnaf i deithio rywbryd, ond nid yw gennyf eto. Mae aelodau o’r teulu’n agored i niwed, ac ni fyddwn yn dymuno gwneud dim a fyddai’n arwain at hyd yn oed y risg leiaf o gyflwyno’r feirws i’n cartref.

Ar ôl adolygu eich cais, rydyn ni’n gallu darparu’r wybodaeth ganlynol:

Yn TrC, rydyn ni’n gwerthfawrogi adborth gan ein cwsmeriaid. Diolch i chi am roi o’ch amser i wyllo a darllen am ein protocolau a’n prosesau diogelwch ar y BBC. Drwy gydol y pandemig, rydyn ni wedi gweithio’n ddiflino i roi mesurau ar waith nid yn unig i ddiogelu yn erbyn y Coronafeirws, ond hefyd i gyfleu’r mesurau hyn i’n teithwyr, ochr yn ochr ag unrhyw ofynion cyfreithiol, er mwyn i ni allu dod at ein gilydd a diogelu ein gilydd ar yr adeg eithriadol hon. Rydyn ni’n gweithio’n galed i sicrhau bod ein cwsmeriaid yn deall y rheolau a’r rheoliadau’n glir ar gyfer teithio ar dtrafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru wrth i’r cyfyngiadau dynhau ac wedyn llacio mewn ymateb i donnau ac amrywiolion newydd.

Ers dechrau’r pandemig, rydyn ni wedi rhoi llawer o fesurau diogelwch ar waith. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Sesiynau glanhau ychwanegol ar drenau ac mewn gorsafoedd. Mae hyn yn cynnwys glanhau ardaloedd sy’n cael eu cyffwrdd yn aml yn rheolaidd (‘mannau cyffwrdd’);
- Defnyddio deunyddiau glanhau gwrthfeirysol i ddiogelu arwynebau;
- Addasu cerbydau gyda system awyru i ddod ag aer ffres i mewn o’r tu allan a pheidio ag aildosbarthu aer mewnol;



- Darparu hylif diheintio dwylo am ddim mewn Prif Orsafoedd;
- Hyrwyddo a rheoli cydymffurfio o ran gorchuddion wyneb mewn partneriaeth â'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig;
- Datblygu ein hadnodd Gwiriwr Capasiti <https://trc.cymru/statws-gwasanaeth/gwiriwr-capasiti>. Roedd yr adnodd yn defnyddio data amser real i alluogi cwsmeriaid i weld pa mor brysur yw gwasanaeth penodol i'w helpu i benderfynu pryd i deithio a dewis amseroedd neu ddiwrnodau tawelach;
- Hyfforddi ein staff i gymryd rhagofalon a mesurau ychwanegol i leihau'r risg i'n cwsmeriaid.

Rydyn ni hefyd wedi gweithio gyda'r Bwrdd Safonau a Diogelwch Rheilffyrdd (RSSB), y Grŵp Cyflawni Rheilffyrdd (RDG), Undebau Llafur a chwmnïau trên a rheolwyr seilwaith eraill i rannu gwybodaeth ac arferion gorau wrth liniaru risgiau'r Coronafeirws.

Mewn ymateb i'ch cais ynghylch "pa fath o brofion a gynhaliwyd; y rhesymeg benodol dros y math hwn o brofion a pha mor aml y cynhaliwyd y profion". Rydwn ni wedi gweithio gyda Transport for London a Network Rail, a gwblhaodd y gwaith ymchwil a phrofi gofynnol gydag Imperial College Llundain. Bydd y dolenni canlynol yn eich cyfeirio at yr adroddiadau sydd wedi'u cyhoeddi i gael rhagor o fanylion:

- Imperial College Llundain: [COVID-19 sampling study finds no trace of virus at major rail stations | Imperial News | Imperial College London](#)
- Transport for London: [Coronavirus publications - Transport for London \(tfl.gov.uk\)](#)
- Network Rail: [Tests show no traces of Covid-19 at four major railway stations - Network Rail](#)

Mae canfyddiadau allweddol o'r adroddiadau hyn wedi'u hamlinellu isod mewn ymateb i'ch cais am y rhesymeg y tu ôl i'n methodoleg (mae'r wybodaeth hon ar gael yn llawn drwy'r dolenni sydd wedi'u darparu uchod):

Cwblhaodd Imperial College y gwaith samplu cychwynol yn y diwydiant gyda Transport for London ym mis Ionawr 2021. Cafodd ugain sampl eu cymryd bob mis rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2020 ar arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml (fel peiriannau tocynnau, manau eistedd, peiriannau gwerthu), yn ogystal â samplau aer. Roeddent yn cynnwys tair gorsaf danddaearol Llundain (Llundain Waterloo, Llundain Euston, a Llundain Paddington), ar drên Northern Line rhwng Waterloo ac Euston, ac ar fws #21 rhwng Euston a Paddington. Roedd yr holl ganlyniadau'n negatif – ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw olion o SARS-CoV-2 RNA. Mae Transport for London yn ailadrodd hyn ar hyn o bryd a disgwylir y canlyniadau dros y misoedd nesaf. Ffilmiodd y BBC y profion hyn, a gallwch wylio'r ffilm yma: [Covid-19: Testing for coronavirus on London transport - BBC News](#)

Cwblhaodd Imperial College yr ail waith samplu yn y diwydiant gyda Network Rail ym mis Mehefin 2021. Cymerwyd 25 sampl mewn gorsafoedd, unwaith eto, ar arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml ym mhob gorsaf (fel peiriannau tocynnau, manau eistedd, peiriannau gwerthu) yn ogystal â samplau aer (a gymerwyd am 60 munud ym mhob cyntedd). Cymerwyd samplau tebyg ar drenau rhwng pob gorsaf ar y llwybr (Llundain Euston - Birmingham New St, Birmingham New Street - Manceinion Piccadilly, Manceinion Piccadilly - Lerpwl Lime Street a Lerpwl Lime Street - Llundain Euston). Roedd yr holl ganlyniadau'n negatif, heb unrhyw olion o SARS-CoV-2 RNA wedi'u canfod ar unrhyw un o'r arwynebau a brofwyd nac yn yr aer, naill ai mewn gorsafoedd neu ar drenau.

Ein rhaglen Teithio'n Saffach ([Teithio'n Saffach | TrC](#)). Rydyn ni'n annog cwsmeriaid i wisgo gorchuddion wyneb ar ein trenau ac yn adeiladau ein gorsafoedd – oni bai eu bod wedi'u heithrio – gan mai dyma'r gyfraith yng Nghymru; cadw unrhyw ffenestri ar agor i helpu awyru; bod yn barchus a chadw pellter diogel oddi wrth eraill; a pheidio â theithio os oes ganddynt unrhyw symptomau. Wrth gwrs, mae'r mesurau hyn yn dibynnu ar ein cwsmeriaid a'u hymddygiad diogel. Rydyn ni'n gweld rhai achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r rheolau hyn ac o ganlyniad, rydyn ni naill ai wedi symud neu wrthod i dros 10,000 o bobl deithio. Wrth gwrs, rydyn ni'n deall nad ydy pawb yn gallu gwisgo gorchudd wyneb ac efallai eu bod wedi cael eu heithrio am resymau iechyd go iawn, ac rydyn ni'n cydnabod bod risg bob amser y bydd cwsmeriaid yn teithio pan fyddant yn asymptomatig.

Fel sy'n cael ei ddangos, drwy gydol y pandemig rydyn ni wedi rhoi llawer o fesurau ar waith i ddiogelu ein staff a'n cwsmeriaid rhag y Coronafeirws, ac rydyn ni'n parhau i adolygu'r rhain yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, y gyfraith a gwybodaeth y diwydiant. Rydyn ni'n cynnal archwiliadau ac yn gweithio gyda'r tîm Profi, Olrhain, Diogelu i adolygu ein rheolaethau. Rydyn ni'n ymdrechu'n barhaus i ddarparu amgylchedd diogel i deithio ac yn gweithio'n galed i leihau risgiau cymaint ag y bo modd.

Fodd bynnag, ni all TrC ddileu risgiau'n llwyr, dim ond eu lleihau. Ni allwn bob amser gadw pellter cymdeithasol ar bob trê'n, yn debyg iawn i nifer o ddiwydiannau eraill sy'n ymestyn dros fannau cyhoeddus, yn agored neu'n gaeedig. Ar hyn o bryd nid oes gofyniad cyfreithiol i gadw pellter cymdeithasol ar drenau yng Nghymru.

Gobeithio bod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi, ac yn rhoi hyder i chi yn ein dull gweithredu a'n hymrwymiad i'n dyletswydd gofal i gwsmeriaid gwerthfawr, fel chi. Gofynnwn i chithau hefyd ddilyn y rheolau a amlinellir yn ein Rhaglen Teithio'n Saffach a defnyddio'r Gwiriwr Capasiti wrth benderfynu a ydych am deithio ar y trê'n neu unrhyw wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus eraill yng Nghymru.

Nodwch fod sawl ffordd y gallwch gadw mewn cysylltiad a chael gwybodaeth, gan gynnwys:

- Gwefan Trafnidiaeth Cymru [Help a chysylltu | TrC](#)
- Drwy anfon e-bost at: contact@tfw.wales
- Twitter: @tfwrail - dydd Llun i ddydd Gwener: 07:00 - 20:00, dydd Sadwrn: 08:00 - 20:00 a dydd Sul: 11:00 - 20:00
- WhatsApp (gwasanaeth negeseuon testun): 07790 952 507 - dydd Llun i ddydd Gwener: 07:00 - 20:00, dydd Sadwrn: 08:00 - 20:00 a dydd Sul: 11:00 - 20:00

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,

Trafnidiaeth Cymru

Hawliau Apelio

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr hwn. Os nad ydych chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: <https://ico.org.uk/make-a-complaint/>

Yr adran berthnasol i'w dewis fvdd "Gwvodaeth Swvddogol neu Gvhoeddus".